*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 4**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mawrth 2019 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**YN BRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod); R Fairhead a K Roberts (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); P Hardwick (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); G Williams (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Hughes (Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru)

**YMDDIHEURIADAU**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 O ran eitem 14 ar yr yr agenda (penodi Swyddog Monitro/Clerc), datganwyd buddiant gan y Dirprwy Glerc, a chadarnhawyd nad oedd raid i Aelodau o Gyngor Sir y Fflint wneud hynny.

1.2 O ran eitem 13 ar yr agenda (Datganiad Polisi Tâl 2019/20), fe wnaeth y Trysorydd gofnodi datganiad cyffredinol o fuddiant gan y swyddogion ond dywedodd na fyddai eu presenoldeb tra byddai'r eitem hon yn cael ei thrafod yn achosi drwg.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 RHAGFYR 2018

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr ATA a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2018 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 I ymateb i gwestiwn am baragraff 9.4 (ii) yn y cofnodion, cadarnhaodd y PST fod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio.

3.2 Cyfeiriodd y PST at baragraff 8.2 yn y cofnodion, a dywedodd bod cadarnhad wedi dod y byddai Llywodraeth Cymru, ar gyfer 2019/20, yn talu'r costau pensiwn ychwanegol a ddisgwylir o ganlyniad i brisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth.

3.3 Cadarnhaodd y PST hefyd, mewn perthynas â pharagraff 8.4 (ii), na fu angen defnyddio'r pwerau dirprwyedig gan fod cyllideb 2018/19 yn aros fel y cafodd ei chymeradwyo gan yr Aelodau yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2018.

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Ionawr a Mawrth 2019 fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6.0 AIL-GYMERADWYO DATGANIAD O GYFRIFON 2017/18

6.1 Fe wnaeth y Trysorydd gyflwyno'r adroddiad a oedd yn cyflwyno, i'w ail-gymeradwyo gan yr Aelodau, y datganiad archwiliedig o gyfrifon 2017/18, gan gynnwys y datganiad llywodraethu.

6.2 Roedd yr ATA eisoes wedi cymeradwyo cyfrifon archwiliedig a datganiad llywodraethu 2017/18 yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2018, ond nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gallu cyhoeddi'r dystysgrif archwilio yn ffurfiol ar y pryd oherwydd bod mater yn aros mewn perthynas â chymhwyso Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

6.3 Cafodd yr Aelodau wybod bod y mater wedi'i ddatrys yn foddhaol erbyn hyn, a bod rhaid iddynt felly ail-gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a'r llythyr sylwadau.

6.4 **PENDERFYNWYD:**

- **(i) ail-gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer 2017/18;**
- **(ii) ail-gymeradwyo'r llythyr sylwadau;**
- **(iii) nodi Adroddiad yr Archwiliad a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;**
- **(iv) nodi Llythyr Archwilio Blynyddol 2017/18 a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

7.0 CYNLLUN ARCHWILIO 2019

7.1 Fe wnaeth y PSC MacArthur gyflwyno Cynllun Archwilio 2019, a oedd yn nodi gwaith arfaethedig Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffioedd cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.

7.2 **PENDERFYNWYD nodi Cynllun Archwilio 2019.**

8.0 CYNLLUN GWELLA A LLESIANT DRAFFT 2019/20

8.1 Fe wnaeth PSC Morris gyflwyno'r Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2019/20 y bydd angen ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2019 yn unol â'r ddeddfwriaeth.

8.2 Ailfynegodd y Cyng. Lewis ei werthfawrogiad o'r Cynllun drafft, a llongyfarch yr awdur am lunio dogfen hawdd ei dilyn.

8.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Gwella a Llesiant drafft 2019/20, i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd mis Mawrth 2019.**

9.0 ALLDRO AMCANOL 2018/19

9.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi amcangyfrif o alldro amcanol am flwyddyn ariannol 2018/19.

9.2 Nododd yr Aelodau mai'r arwyddion presennol yw y bydd yr Awdurdod, yn 2018/19, yn defnyddio ei holl gyllideb refeniw, sef £34.1m, a'r holl ddyraniadau grant, ond y bydd ei wariant cyfalaf yn £2.4m o gymharu â'r cynllun, sef £5.9m. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod nifer o brosiectau wedi cael eu had-drefnu i flynyddoedd i ddod fel rhan o strategaeth hirdymor yr Awdurdod.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod.**

10 STRATEGAETH GYFALAF A RHEOLI'R TRYSORLYS

10.1 Fe wnaeth y Trysorydd gyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau, yn amlinellu sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaeth tân ac achub, ac i roi trosolwg o'r modd y mae risg cysylltiedig yn cael ei reoli a beth yw'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

10.2 Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 28 Ionawr 2019 er mwyn i'r aelodau adolygu'r cynnwys cyn ei gyflwyno i'r ATA. Yn dilyn cyflwyniad yn tynnu sylw at feysydd allweddol yn yr adroddiad, fe wnaeth Aelodau'r Pwyllgor Archwilio argymell bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo gan yr ATA.

10.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob un o'r pum elfen allweddol a nodir yn adroddiad, fel y gwelir isod:**
**(i) y Strategaeth Gyfalaf gyffredinol;**
**(ii) y Dangosyddion Darbodus;**
**(iii) y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20;**
**(iv) y Strategaeth Fuddosddi;**
**(v) y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw.**

11 TREFNIADAU CYLLID A LLYWODRAETHU AR GYFER AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

11.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynigion Llywodraeth Cymru i newid trefniadau cyllido a llywodraethu'r ATAau yng Nghymru, fel y nodir yn y Papur Gwyn, "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru", a gyhoeddwyd ar 13 Tachwedd 2018.

11.2 Roedd ymateb yr Awdurodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn wedi cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau, sef 5 Chwefror 2019.

11.3 Hefyd, rhoddodd y Cadeirydd a'r PST yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gyfarfod yr aethant iddo ar 20 Chwefror 2019 pryd roedd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi adborth i Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân y tri ATA a chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'r ymateb a gafwyd i'r Papur Gwyn. Adroddwyd bod nifer anarferol o uchel o ymatebion wedi dod i law, ac y byddai'n cymryd amser i Lywodraeth Cymru ddadansoddi'r rhain cyn gwneud ymateb ffurfiol.

11.4 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chael adroddiad pellach unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i'r ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru".**

12 DATGANIAD POLISI TÂL 2019/20

12.1 Fe wnaeth yr Trysorydd gyflwyno'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r datganiad polisi tâl ar gyfer 2019/20.

12.2 Nodwyd bod rhaid i'r Awdurdod lunio datganiad polisi tâl bob blwyddyn dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Rhaid i'r datganiad gydymffurfio hefyd â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, "Atebolrwydd Tâl mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017.

12.3 Cafwyd eglurhad gan y Trysorydd a'r Dirprwy Glerc fod dosbarthiad y pwyntiau colofn ar y raddfa gyflog anweithredol yn gyson â'r argymhellion yn adroddiad Hutton ar dâl teg yn y sector cyhoeddus.

12.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad polisi tâl am y flwyddyn i ddod, sef 2019/20.**

13 CYFLOG DIFFODDWYR TÂN

13.1 Rhoddodd y PST y diweddaraf am negodiadau a oedd yn digwydd drwy Gyd-Gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol ynglŷn â chyflogau ac amodau diffoddwyr tân.

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. D Rees a'r Cyng. S Glyn y cyfarfod.

Gadawodd y Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro y cyfarfod tra oedd yr eitem nesaf ar yr agenda yn cael ei thrafod.

14 PENODI SWYDDOG MONITRO/CLERC

14.1 Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân gyflwyno adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad y broses gaffael gystadleuol ar gyfer darparu Swyddog Monitro/Clerc i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o 1 Ebrill 2019 ymlaen ac i geisio cymeradwyaeth i benodi Colin Everett, Cyngor Sir y Fflint, i'r swydd.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi bod y broses gaffael gystadleuol wedi dod i ben, a chymeradwyo penodi Colin Everett, Cyngor Sir y Fflint, i swydd Swyddog Monitro/Clerc Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o 1 Ebrill 2019 ymlaen.**

Dychwelodd y Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro i'r cyfarfod.

15 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

15.1 Fe wnaeth y Dirprwy Glerc gyflwyno'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r pedwerydd adroddiad blynyddol ar ddeg gan y Pwyllgor Safonau.

15.2 Cyfeiriwyd at lefel presenoldeb isel mewn rhai cyfarfodydd. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod angen mynychu'n rheolaidd a bod dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu pennu ymhell ymlaen llaw ac y dylai hynny fod yn gymorth i osgoi gwrthdaro mewn dyddiaduron. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau a oedd wedi gallu bod yn bresennol yn rheolaidd.

15.3 Diolchodd y Cadeirydd i Mr. David Morris am ei waith a'i ymroddiad i'r Pwyllgor Safonau gan fod cyfnod ei swydd wedi dod i ben yn 2018.

15.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.**

Ar yr adeg hon, fe wnaeth y Cyng. A Davies adael y cyfarfod.

16 PARATOI AR GYFER YMADAWIAD Y DEYRNAS UNEDIG Â'R UNDEB EWROPEAIDD (BREXIT)

16.1 Fe wnaeth y PSTC Fairhead gyflwyno adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gamau a gymerir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i baratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

16.2 Fe wnaeth y PSTC Fairhead amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth i ganfod sefyllfaoedd a allai ddigwydd o ganlyniad i Brexit ac i gynllunio ar eu cyfer. Roedd y gwaith yn cynnwys gwirio cynlluniau parhad cyflenwyr, a pharatoi ar gyfer tagfeydd traffig posibl yn ardal porthladd Caergybi. Cafodd yr Aelodau wybod hefyd fod y gwaith cynllunio'n parhau drwy Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i sicrhau bod y risgiau a'r ymatebion priodol yn cael eu canfod gyda'n gilydd.

16.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**